

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Severn Dental, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 01 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Severn Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 01 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 19 o ymatebion gan gleifion a phump ymateb gan y staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch a gwelsom fod safonau da yn cael eu dilyn i sicrhau preifatrwydd y cleifion. Er bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn ar adeg yr arolygiad.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis a dywedodd y cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth, ynghyd â'u risgiau a'u manteision. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod lle i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r cleifion.

Roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, a oedd yn galluogi'r cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol i drefnu triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad, ond nid oedd sawl unigolyn yn ymwybodol o'r ffordd i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r rhifau cyswllt mewn argyfwng er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael yn gyson i'r cleifion
- Cymryd camau i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith er mwyn darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei wirio ac y caiff unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd mewn fformatau amgen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Derbynfa ac ardal aros gyfforddus a oedd wedi'u cyflwyno'n dda
- Oriau agor estynedig ar ddydd Mawrth a dydd Mercher er mwyn sicrhau y gall cleifion na allant fynychu yn ystod oriau gwaith gael gwasanaeth
- Roedd gwasanaeth tawelyddu ymwybodol ar gael i gleifion pryderus
- Roedd y gwasanaeth yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, ei fod yn ymddangos yn lân iawn a'i fod wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon.

Roedd trefniadau da mewn perthynas â defnyddio peiriannau pelydr-X, ac roedd tystiolaeth bod prosesau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar, ei gynnal a'i gadw a'i brofi.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y pwnc. Roedd cydymffurfiaeth dda â gofynion diogelwch tân, rheoli meddyginiaethau a thrin gwastraff clinigol.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn dda iawn, yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn ac roedd tystiolaeth bod hanes meddygol yn cael ei wirio, cydsyniad yn cael ei gasglu, a bod cynlluniau triniaeth ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau y dyfodol yn cyd-fynd yn llawn â chanllawiau Cymru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir
- Roedd yr ystafell ddihalogi yn drefnus iawn a dangoswyd prosesau da
- Trefniadau da ar gyfer cynnig y gwasanaethau tawelyddu yn ddiogel
- Mae trefniadau parhad busnes ar waith â phractisau'r gangen.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr uwch-dîm rheoli yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac roedd tystiolaeth bod datblygiadau parhaus ar waith i wella ac ehangu'r gwasanaethau a gynigir. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac y byddai'n argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac ar gael yn hawdd i'r staff eu gweld a'u cydlofnodi. Roedd y gyfradd gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda, ac roedd gan dîm rheoli'r practis brosesau monitro effeithiol ar waith.

Roedd proses recriwtio briodol ar waith ac roedd y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y lleoliad. Roedd cynllun da ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis a dim ond yr archwiliad ar roi'r gorau i smygu roedd angen ei gwblhau.

Er y nodwyd rhai gwelliannau yr oedd angen eu gwneud, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal tystiolaeth lawn o frechiadau a chanlyniadau profion hepatitis y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd proses sefydlu wedi'i dogfennu'n llawn ar waith a oedd yn cael ei chymeradwyo gan uwch-aelodau o staff
- Roedd hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w adborth
- Roedd systemau rheoli allanol, fel Eden a NHS Compass, yn cael eu defnyddio'n effeithiol
- Cafwyd ymateb da i adborth a rhoddwyd camau gweithredu ar waith naill ai yn ystod neu'n fuan ar ôl yr arolygiad i fynd i'r afael â'r argymhellion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 19 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Yn gyfeillgar ac yn groesawgar iawn."

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn, ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus iawn. Mae'r ystafell yn lân iawn. Er fy mod i'n casáu mynd at y deintydd, mae'r staff yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth briodol am ofal iechyd ar gael yn ardaloedd aros y cleifion, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a chynghor ar risgiau a manteision pelydrau-X. Roedd y practis hefyd yn defnyddio sgriniau digidol yn yr ardaloedd aros i ddarparu gwybodaeth ychwanegol a oedd yn newid o un sgrin wybodaeth i'r nesaf. Fodd bynnag, roedd lle i ddarparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig berthnasol, fel gwybodaeth am ddeiet iach, canser y geg, a hylendid ataliol y geg. Ni welsom unrhyw wybodaeth yn ardal aros y cleifion am y gwasanaeth tawelyddu ymwybodol a ddarperir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau y bydd yn eu cymryd i roi cyngor gofal iechyd perthnasol pellach i'r cleifion.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn ogystal ag egwyddorion moesegol craidd y Cyngor wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros. Gwelsom fod costau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, yn ogystal â phroses gwyno'r practis yn cael eu harddangos.

Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a dywedodd y rhan fwyaf bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion yn garedig ac â pharch. Roedd tîm y dderbynfa yn groesawgar iawn. Gwelsom fod cytundebau cyfrinachedd wedi'u llofnodi yn ffolderi personol y staff a gwnaethom edrych arnynt. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yr oeddent yn cael eu tawelyddu yn cael amser i ymadfer yn y cadeiriau deintyddol a bod amseroedd apwyntiadau'n cael eu hymestyn yn ôl yr angen.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau pan oedd y deintyddion yn trin y cleifion, a bod gwydr barugog ar y ffenestri er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros yn yr un ystafell. Ar adeg yr arolygiad, gellid defnyddio ystafell gynadledda i gynnal trafodaethau cyfrinachol. Gwelsom fod swyddfa wrthi'n cael ei hadeiladu ar gyfer y cydgysylltydd triniaethau ar y llawr cyntaf, a fyddai'n cael ei defnyddio ar y diben hwn yn y dyfodol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis gan y staff.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd y rhan fwyaf fod y staff wedi esbonio'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'u hopsiynau triniaeth, a bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn rhoi triniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y prisiau cyn iddynt gael triniaeth, er bod un ymatebydd yn anghytuno. Roedd pob un o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhain yn cynnwys oriau agor estynedig ar ddydd Mawrth a

dydd Mercher er mwyn sicrhau y gall cleifion na allant fynychu yn ystod oriau gwaith gael gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym y dylai'r cleifion y mae angen triniaeth frys arnynt ffonio am 9:00am, lle y caiff lefel yr argyfwng ei asesu gan staff y dderbynfa ac unrhyw ymholiadau eu hatgyfeirio at y deintydd. Roedd apwyntiadau ar ôl oriau ysgol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer plant. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i gleifion aros pythefnos rhwng apwyntiadau ar gyfartaledd ac y byddai unrhyw oedi o ran amseroedd apwyntiadau'n cael eu cyfathrebu i'r cleifion gan staff y dderbynfa.

Dywedodd pawb ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd chwe ymatebydd nad oeddent yn gwybod. Roedd rhifau brys y tu allan i oriau ar gyfer cleifion y GIG, cleifion preifat a chleifion Denplan i'w gweld yn glir y tu allan i'r adeilad. Roedd y rhifau brys hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, ond roedd rhif cyswllt Denplan yn wahanol i'r un a oedd yn cael ei arddangos.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r rhifau cyswllt mewn argyfwng er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael yn gyson i'r cleifion.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn cael ei harddangos yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddarparu. Roedd y practis o'r farn nad oedd darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o ofynion y cleifion oherwydd demograffeg y cleifion a'i fod wedi'i leoli ger y ffin â Lloegr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gallai aelodau o staff practis cangen helpu pe byddai angen gwneud hynny. Roedd gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Fodd bynnag, gwnaethom siarad ag aelod o deulu un o'r cleifion a nododd nad oedd y staff wedi gofyn am ei ddewis iaith ac nad oedd wedi cael cynnig yr opsiwn o wasanaeth cyfieithu er nad oedd y claf yn gallu siarad gair o Saesneg.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig:

- Roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith
- Sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei wirio a'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion a bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol.

Mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaeth. Nid oedd cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael.

Roedd system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill fel print bras ac mewn fformat hawdd ei ddeall.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am sut y gall y practis ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen sy'n ystyried anghenion unigol y cleifion.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion, gydag enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion trawsryweddol, yn ôl yr angen. Gwelsom fod polisiau cyfredol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a bwlio ac aflonyddu ar waith yn y practis a oedd yn cael eu cadw yn llawlyfr y staff. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig a drefnodd i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn. Rhoddwyd tystysgrifau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth pob aelod o staff i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ar hyn o bryd, ac roedd lloriau gwastad ym mhob rhan ohono a mynediad llydan i bob ardal gan gynnwys pob deintyddfa. Fodd bynnag, gwelsom fod deintyddfeydd ac ardal aros ychwanegol wrthi'n cael eu gosod ar y llawr cyntaf. Nodwyd gennym fod y rhain wedi'u dylunio gan ystyried mynediad i gleifion, gan fod lifft wedi'i osod er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd.

Gwnaethom edrych ar y toiled i gleifion a gwelsom ei fod yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ond nid oedd llawer o olau yno. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod eisoes yn bwriadu gosod golau newydd fel rhan o'r gwaith datblygu presennol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd y practis deintyddol yn ymddangos mewn cyflwr da, ac roedd y deintyddfeydd yn fawr ac wedi'u goleuo'n dda gyda chynllun cyson drwyddi draw. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel iawn. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn gyfforddus, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon.

Roedd polisi iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn cael ei harddangos hefyd. Gwelsom y trefniadau a oedd ar waith i'r staff newid eu dillad a storio eu heiddo personol a nodwyd gennym fod ystafell newid ddynodedig i'r staff yn rhan o'r cynlluniau datblygu parhaus.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau brys. Roedd y polisi hwn yn cynnwys manylion practis amgen a allai helpu i ddarparu gofal.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân priodol ar waith a bod asesiad risg tân wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd pob aelod o staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom bolisi cyfredol mewn perthynas â phrosesau atal a rheoli heintiau, ac roedd arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei benodi. Roedd pob ardal a ddefnyddir yn ymddangos yn lân ac wedi'i dodrefnu i sicrhau y gellir ei glanhau'n effeithiol, ac roedd amserlenni ar waith i gefnogi'r prosesau hyn. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i staff a gwelwyd bod cyfleusterau hylendid dwylo addas yn y deintyddfeydd a'r toiledau.

Nodwyd gennym fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oedd yn glir a oedd yn cyd-fynd yn llawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 yn y dyfodol.

Gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio i helpu i atal anafiadau a achosir gan nodwyddau a bod siartiau llif nodwyddau ar gael ym mhob deintyddfa i roi cyngor i'r staff ar y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i staff y practis a chadarnhaodd pob aelod o'r staff eu bod yn ymwybodol o sut i gael gafeael ar y gwasanaeth cymorth hwn.

Roedd yr ystafell ddihalogi wedi'i threfnu'n dda ac roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddiol aml dro. Gwelsom fod system addas i gludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth o waith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi.

Gwelsom fod contractau ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Roedd gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei wahanu'n briodol a'i storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu. Roedd trefniadau addas ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun y rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer awyru nwy tawelyddu o'r deintyddfeydd a gwelsom gyfarpar gwaredu addas ac all-lif nwy er mwyn sicrhau y caiff ocsid nitrus ei waredu o'r deintyddfa.

Gwnaethom gadarnhau fod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd holiadur AGIC i gleifion o'r farn bod y lleoliad yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân', ac roedd pob un ond un yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, a bod prosesau addas ar waith ar gyfer eu cadw a'u gwaredu. Gwelsom fod y meddyginiaethau a roddwyd wedi cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion ac y rhoddir gwybod am adweithiau andwyol i feddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa cleifion i roi gwybod i'r staff am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Roedd polisi ysgrifenedig ar waith ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol yn y practis a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol. Gwnaethom

gadarnhau fod y staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant adfywio diweddaraf.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Roedd system addas ar gyfer gwirio stociau a monitro dyddiadau dod i ben meddyginiaethau a chyfarpar ac roedd yr holl eitemau'n gyfredol. Gwelsom hefyd bod trefniadau addas ar waith ar gyfer argyfyngau lle y defnyddir dulliau tawelyddu a bod aelodau perthnasol o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cynnal bywyd brys yn ôl yr angen.

Gwelsom fod y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu yn ôl yr angen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant i'w defnyddio'n ddiogel.

Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys stoc briodol a bod yr holl eitemau'n gyfredol a bod sawl aelod o staff wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael pe byddai'r lleill yn sâl neu ar wyliau.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol, gan gynnwys cyfarpar tawelyddu. Roedd y cyfarpar clinigol yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac wedi cael y profion angenrheidiol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith. Roedd arwyddion priodol ar ddrws pob deintyddfa. Er bod y rhan fwyaf o ddogfennaeth ar gael i ddangos bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, nid oedd unrhyw bolisi rheoli gofalmwyr a chysurwyr a all fod yn cefnogi claf wrth iddo gael pelydr-X. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig a roddodd bolisi gofalmwyr a chysurwyr addas i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod cyfiawnhad a gwerthusiadau clinigol ar gyfer pob cysylltiad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y claf a bod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith a oedd yn cwmpasu cysylltiadau anfwriadol a damweiniol, lefelau dosau ac ansawdd delweddu. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau radiograffig wedi cael eu cwblhau.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisi diogelu cyfredol addas ar waith a gwelsom ei fod yn cyd-fynd â'r Gweithdrefnau Diogelu diweddaraf ar gyfer Cymru a bod manylion cyswllt y tîm diogelu lleol wedi'u cynnwys. Roedd arweinydd diogelu wedi cael ei benodi yn y practis ac roedd siartiau llif diogelu y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael ym

mhob deintyddfa ac yn yr ystafell staff er mwyn gallu eu defnyddio'n hawdd pe byddai pryder.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar brosesau amddiffyn plant ac oedolion, a'u bod yn gwybod â phwy i gysylltu pe bai ganddynt bryder.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a chawsom sicrwydd fod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan oedd triniaeth yn cael ei darparu. Gwelsom fod y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Roedd dulliau tawelyddu ymwybodol yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau arfer gorau, ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol priodol. Fodd bynnag, ni ddaethom o hyd i archwiliad clinigol ar gyfer y broses tawelyddu a gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig. Cafodd AGIC gopi o'r archwiliad tawelyddu yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith ar gyfer rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel. Roedd prosesau a pholisïau priodol ar waith i amddiffyn hawliau cleifion nad oes ganddynt alluedd o bosibl. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol 10 claf ac roeddem o'r farn eu bod mewn cyflwr da. Roedd gan bob cofnod ddynodyddion cleifion addas, ac roedd hanes deintyddol blaenorol a rheswm dros yr apwyntiad wedi'u cofnodi. Roedd yr holl gofnodion yn dangos bod y staff wedi gwirio hanes meddygol y cleifion ac y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi ym mhob apwyntiad. Nodwyd gennym fod tystiolaeth o gynllunio triniaethau ym mhob cofnod a welsom.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safonau ansawdd y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i alluogi'r staff i ail-lenwi apwyntiadau a oedd wedi'u canslo. Roeddem o'r farn bod y broses atgyfeirio yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod lefelau da o gyfathrebu rhwng

y tîm a gwasanaethau eraill i sicrhau bod atgyfeiriadau bryd yn cael eu trin yn brydlon.

Roedd y cyfleusterau a'r safle mewn cyflwr da ar gyfer y gwasanaethau a gaiff eu darparu ar hyn o bryd a bydd cyfleoedd i wella'r broses symud drwy'r llwybrau triniaeth mewnol gyda'r gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd pum aelod o staff i holiadur AGIC a chafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau yn ymwneud ag urddas y cleifion a llesiant y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Dywedodd pob un ohonynt y byddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a'u bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith, gyda'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a'u cadw mewn ffeil, ond eu bod yn eithaf cryno. Dywedwyd wrthym y byddai cyfarfod ar wahân yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Gwnaethom drafod yr opsiwn o rannu cofnodion mwy manwl â'r staff nad oeddent yn bresennol i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Roedd y rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u cydlofnodi gan y staff ar y system cydymffurfiaeth ddeintyddol i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y fersiwn diweddaraf.

Roedd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod eu patrwm gwaith yn rhoi cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Roedd pob un yn cytuno bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddynt yn y gweithle, ac roeddent yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd pob un yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu yn y gweithlu a dywedwyd y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd, roedd tîm y practis yn cynnwys tri deintydd, a thair nyrs ddeintyddol. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio staff eraill o bractisau'r gangen pan fo aelodau o staff ar wyliau neu'n absennol. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom ei bod yn hawdd mynd at yr uwch-reolwyr, a bod amgylchedd cyfeillgar ymhlith y tîm.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chyflogi staff yn y practis deintyddol. Roedd proses sefydlu ar waith a oedd yn cael ei dogfennu a'i chymeradwyo gan y goruchwylydd a'r cyflogai wedi iddo ei chwblhau ac yr ystyrir ei fod yn gymwys. Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban y practis wedi'i gynnwys yn llyfryn y staff. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn cael y llyfryn hwn.

Cawsom wybod bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r gweithlu yn cael ei monitro gan dîm rheoli'r practis. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ddilys, a lle y bo'n berthnasol, tystiolaeth o yswiriant indemniad, a chofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystiolaeth o imiwneiddiadau Hepatitis B ar gael ar gyfer pob aelod o staff, ond ni welsom ganlyniadau'r prawf Hepatitis B ar gyfer un aelod o staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cadw tystiolaeth lawn o frechiadau a chanlyniadau profion Hepatitis y staff a rhoi copi o ganlyniad y prawf y mae angen ei gynnal i AGIC.

Yn gyffredinol, roedd cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant staff gorfodol ac roedd yn cael ei monitro gan reolwr y practis. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis, gan gynnwys hyfforddiant ar dawelyddu. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd dal i fyny anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn lle'r arfarniadau hyn.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cwblhau hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl yn y practis ac wedi cael arfarniad neu adolygiad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom drefniadau amrywiol ar gyfer ceisio adborth gan gleifion, gan gynnwys arolygon penodol ar dawelyddu a negeseuon testun ac e-bost ar ôl triniaeth â dolenni i lwyfan adborth y practis. Roedd blwch awgrymiadau ar gael i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i roi adborth yn ddienw.

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod themâu a thueddiadau'n cael eu nodi a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod hysbysiad 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'w hadborth.

Roedd gweithdrefn gwyno y practis i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn hon yn nodi'r aelod o staff a oedd wedi'i benodi i ymdrin â chwynion, ac yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt i gael help a chymorth. Gwelsom fod ffolder cwynion ar gael, ond nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu gwneud hyd yma.

Roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd cyfredol ar waith, a oedd yn rhoi arweiniad ac yn nodi cyfrifoldebau'r staff. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw ddigwyddiadau lle bu angen arfer y Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r uwch-reolwyr a drefnodd i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn. Rhoddwyd tystysgrifau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gyfer pob aelod o staff i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn deall ei rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'i fod yn cael ei annog i fynegi pryderon pe bai rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom y byddai digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi ar ffurflen digwyddiad o bwys. Disgrifiwyd dulliau priodol o rannu'r wybodaeth hon â'r staff a'r GIG yn ehangach, ond nid oedd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch wedi codi hyd yma.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Fel rhan o weithgareddau gwella' practis, gwelsom raglen dda o archwiliadau. Oni bai am yr archwiliad ar roi'r gorau i smygu, roedd yr holl archwiliadau a argymhellir wedi'u cwblhau gan gynnwys yr archwiliad ar ragnodi gwrthfotigau, gwastraff

clinigol a mynediad i bobl anabl. Roedd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu hasesu er mwyn helpu i lywio penderfyniadau'r tîm rheoli.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad ar roi'r gorau i smygu.

Dywedwyd wrthym fod pob practis cangen yn cymryd rhan mewn adolygiadau gan gymheiriaid clinigol rhwng grwpiau er mwyn annog y broses o rannu'r gwersi a ddysgwyd â'r grŵp deintyddol ehangach. Roedd y practis hefyd yn defnyddio adnoddau datblygu tîm ac asesu risg cydnabyddedig fel y *Matrics Aeddfedrwydd* ar gyfer Deintyddiaeth a'r *Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN)* fel rhan o'i raglen gwella ansawdd ehangach. Roeddem o'r farn bod y practis yn defnyddio systemau rheoli ansawdd allanol, sef *eDEN* a *Compass* y *GIG* yn effeithiol.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gysylltiadau da â'r bwrdd iechyd lleol a disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng y practis a darparwyr gofal iechyd eraill yn yr ardal, gan gynnwys y tîm diogelu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Severn Dental

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Severn Dental

Dyddiad yr arolygiad: 01 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd lle i ddarparu rhagor o wybodaeth berthnasol am ofal iechyd, fel gwybodaeth am ddeiet iach, canser y geg, a hylendid ataliol y geg. Ni welsom unrhyw wybodaeth yn ardal aros y cleifion am y gwasanaeth tawelyddu ymwybodol a ddarperir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau y bydd yn eu cymryd i roi cyngor gofal iechyd perthnasol pellach i'r cleifion.	Safon Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Rydym wedi archebu taflenni gwybodaeth, posteri a chardiau gwybodaeth ychwanegol er mwyn eu harddangos a'u rhoi i gleifion yn y practis.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau.
Roedd y rhifau brys y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir. Fodd bynnag, roedd rhif cyswllt Denplan a oedd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r rhifau cyswllt mewn argyfwng er mwyn sicrhau bod y wybodaeth	Rheoliad 6 ac Atodlen 2(1)(d)	Mae'r rhif anghywir bellach wedi cael ei newid i'r rhif ffôn cywir.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau.

wahanol i'r rhif cyswllt a oedd yn cael ei arddangos.	gywir ar gael yn gyson i'r cleifion.				
Nid oedd y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddarparu.	Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Safon Ansawdd - Teg	Fel practis, rydym bellach yn gofyn i gleifion a ydynt yn dymuno i ni siarad Cymraeg â nhw ac rydym wedi dechrau cyfarch cleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac wedi arddangos poster yn cynnig yr opsiwn i ni siarad Cymraeg â nhw. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth cyfieithu.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau.
Gwnaethom siarad ag aelod o deulu un o'r cleifion a nododd nad oedd y staff wedi gofyn am ei ddewis iaith ac nad oedd wedi cael cynnig yr opsiwn o wasanaeth cyfieithu er nad oedd y claf yn gallu siarad gair o Saesneg.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei wirio a'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion a bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol.	Rheoliad 13(1)(a)	Fel practis, rydym bellach yn gofyn am ddewis iaith y claf a gaiff ei ddogfennu yn y cofnodion cleifion a chaiff camau priodol eu cymryd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i'r rhai hynny y mae ei angen arnynt.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Nid oedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill fel print bras ac mewn fformat hawdd ei ddeall.	Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am sut y gall y practis ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen sy'n ystyried anghenion unigol y cleifion.	Rheoliad 13(1)(a)	Gellir diwygio pob dogfen i ddogfen print bras neu ddogfen hawdd ei deall a gallwn ei hargraffu yn y fan a'r lle ar gyfer unrhyw gleifion yr oedd angen y ddogfen arnynt. Rydym wedi arddangos poster i hysbysu cleifion am y gwasanaeth hwn.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
Nid oedd yn glir a oedd yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 yn y dyfodol.	Rheoliad 13(6)(a)	Rydym wedi gwirio â'n cwmni cydymffurfio, DCME, sydd wedi cadarnhau bod yr archwiliad atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio â WHTM 01-05. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi holi am fersiwn yr WHTM 01-05 y byddwn hefyd yn ei gwblhau, yn ogystal â'r archwiliad atal a rheoli heintiau presennol.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Ni welsom gofnodion prawf Hepatitis B ar gyfer un aelod o staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cadw tystiolaeth lawn o frechiadau a chanlyniadau profion Hepatitis y staff a rhoi copi o ganlyniad y prawf y mae angen ei gynnal i AGIC.	Rheoliad 13 (6)(c)(ii)	Cynhaliwyd prawf gwaed pellach ac rydym wedi anfon cadarnhad o'r canlyniadau i AGIC drwy e-bost.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
Roedd yr holl archwiliadau a argymhellir wedi cael eu cwblhau ar wahân i'r archwiliad ar roi'r gorau i smygu.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad ar roi'r gorau i smygu.	Rheoliad 16(1)(b)	Rydym bellach wedi dechrau'r archwiliad ar roi'r gorau i smygu. Gellir cymryd hyd at chwe mis i gwblhau'r archwiliad.	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Carly Turner

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18/09/2025